# 1. Gair am y gofynion diogelwch hyn

Darllenwch y gofynion diogelwch yn ofalus cyn defnyddio'r sgrin gyffwrdd. Cadwch at y rhybuddion a nodir ar y ddyfais ac yn y llawlyfr i ddefnyddwyr. Cadwch y gofynion diogelwch hyn a'r llawlyfr i ddefnyddwyr o fewn cyrraedd.

## 1.1 Pictogramau a symbolau rhybuddio a ddefnyddir yn y gofynion diogelwch hyn

**RHYBUDD PERYGL!**
Rhybudd o anaf (difrifol) posibl.

**RHYBUDD!**
Rhybudd o rannau wedi'u trydanu.

**RHYBUDD!**
Rhybudd am risg o niwed i'r clyw o ganlyniad i sain uchel.

**GOFAL!**
Dilynwch y cyfarwyddiadau hyn er mwyn osgoi difrod materol.

**NODER!**
Gwybodaeth a chyngor ynghylch defnyddio'r ddyfais.

## 1.2. Defnydd Bwriadedig

Bwriedir y ddyfais hon ar gyfer cyfathrebu digidol ac ar gyfer defnyddio, rheoli a golygu dogfennau electronig a chynnwys amlgyfrwng. Os bydd y ddyfais yn cael ei defnyddio at ddibenion gwahanol i'r rheiny sydd wedi eu disgrifio yn y gofynion diogelwch hyn a'r llawlyfr i ddefnyddwyr, ni fydd Prowise B.V yn derbyn unrhyw atebolrwydd am ddifrod materol neu anaf corfforol posib. Peidiwch â gwneud newidiadau i'r ddyfais heb ganiatâd ysgrifenedig Prowise. Bydd defnydd amhriodol yn dirymu'r warant.

## 1.3. Cadarnhau cydymffurfiaeth

Mae Prowise B.V.
Luchthavenweg 1b
6021 PX Budel
Yr Iseldiroedd

Drwy hyn yn datgan yn llwyr ar ei gyfrifoldeb ei hun bod y cynnyrch:
Prowise Touchscreen Ten G3 gyda'r rhifau cynnyrch:
PW.1.17065.0003 / PW.1.17075.0003 / PW.1.17086.0003 / PW.1.17098.0003
y mae'r datganiad hwn yn berthnasol iddo, yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch hanfodol y cyfarwyddebau Ewropeaidd a ganlyn:

- • Cyfarwyddeb Foltedd Isel 2014/35/E
- • Cyfarwyddeb EMC 2014/30/EU
- • Cyfarwyddeb RoHS 2011/65/EU
- • Cyfarwyddeb ErP (Ecoddyluniad) 2009/125/EC
- • Cydweddu ag WEEE

a, lle bo'n berthnasol, ei fod yn cydymffurfio â'r safonau canlynol a gysonwyd neu rannau o'r safonau hyn:

**Ardystiadau Ewropeaidd:**

| | |
|---|---|
| CE: EMC - LVD - RED | CE |
| RoHS | RoHS |
| REACH | REACH |
| WEEE | |
| GS | TÜVRheinland ZERTIFIZIERT / GS |

**Ardystiad mewnol:**

| | |
|---|---|
| FCC - Rhan 15, Is-ran B (UDA) | FC |
| CAN ICES-003(B)/NMB-003(B) | IC |

| | |
|---|---|
| HDMI | |
| Energy Star 8.0 | |

**Sylw ynghylch FCC:** Mae'r offer hwn wedi cael ei brofi a chanfuwyd ei fod yn cydymffurfio â'r terfynau ar gyfer dyfais ddigidol Dosbarth B, yn unol â rhan 15 o Reolau'r FCC Cynlluniwyd y terfynau hyn i ddarparu amddiffyniad rhesymol rhag ymyrraeth niweidiol mewn gosodiad preswyl. Mae'r ddyfais hon yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn gallu pelydru ynni amledd radio. Os nad yw'n cael ei gosod a'i defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau, gall achosi ymyrraeth niweidiol â chyfathrebiadau radio. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd na fydd ymyrraeth yn digwydd mewn gosodiad penodol. Os yw'r offer hwn yn peri ymyrraeth niweidiol â derbyniad radio neu deledu, y gellir ei ganfod drwy droi'r offer i ffwrdd ac ymlaen, anogir y defnyddiwr i geisio cywiro'r ymyrraeth drwy ddilyn un neu fwy o'r mesurau canlynol

- Ailgyfeirio neu ail-leoli'r antena derbyn.
- Cynyddu'r bwlch rhwng yr offer a'r derbynnydd.
- Cysylltu'r offer i mewn i bwynt ar gylched sy'n wahanol i'r un y mae'r derbynnydd yn gysylltiedig ag ef.
- Holi'r deliwr neu dechnegydd radio/teledu profiadol am gymorth

**NODYN am HDMI:** Mae'r termau HDMI, Rhyngwyneb Amlgyfrwng Diffiniad Uchel HDMI, gwisg fasnach HDMI a logos HDMI yn nodau masnach trwyddedig neu'n nodau masnach cofrestredig HDMI Licensing Administration, Inc.

**NODYN am y Modd Nos:** Cyfeiriwch at y camau canlynol i droi ymlaen ac oddi ar y modd golau glas isel. Gosodiadau Canolog > Arddangos > Modd Nos > On / Off.

### Cydymffurfiaeth ag ENERGY STAR®

Fel partner ENERGY STAR, mae Prowise B.V. wedi dilyn proses cymhwyster ac ardystiad cynnyrch uwch yr EPA er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion a farciwyd â logo ENERGY STAR â chymhwyter ENERGY STAR yn ôl canllawiau perthnasol ENERGY STAR ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Mae'r logo yn ymddangos ar y dangosydd wrth i bob Dangosydd Arwyddion cymwys ENERGY STAR gychwyn. Cafodd y Rhaglen ENERGY STAR ar gyfer Dangosyddion Arwyddion ei chreu gan EPA i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a lleihau llygredd aer drwy offer sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon mewn swyddfeydd, ystafelloedd dosbarth a ffatrïoedd. Un ffordd y gall cynnyrch gyrraedd y nod hwn yw drwy ddefnyddio nodwedd rheoli pŵer i leihau'r pŵer a ddefnyddir pan nad yw'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio.

Os yw'r defnyddiwr yn newid gosodiadau disgleirdeb neu osodiadau modd pŵer, efallai y bydd defnydd ynni'r panel yn cynyddu y tu hwnt i'r terfynau sy'n ofynnol ar gyfer ardystiad ENERGY STAR. Mae gwybodaeth ychwanegol am y Rhaglen ENERGY STAR a'i manteision amgylcheddol ar gael ar wefan ENERGY STAR EPA yn http://www.energystar.god

### Wi-Fi

Gwybodaeth dechnegol allweddol

| | |
|---|---|
| Cefnogaeth Wi-Fi | 802.11 a/b/g/n/ac/ax |
| Cefnogaeth Bluetooth | BT 2.1/3.0/4.2/5.2 |
| Amledd gweithredu | 2.4GHz & 5GHz |
| 2.4GHZ ISM Band: | 2.400GHz - 2.4835 GHz |
| 5GHz UNI Band: | 5.15-5.35GHz, 5.47-5.725GHz, 5.725-5.85GHz |

Amledd radio a phŵer

| Amleddau | Pŵer allbwn (uchafswm.) |
|---|---|
| 2402 i 2483.5 MHz | 19.0 dBm |
| 5150 i 5350 MHz | 17 dBm |

### NFC

Amledd gweithredu 13.mHz

### Teclyn Rheoli o Bell Hud Prowise

Amledd gweithredu Teclyn Rheoli o Bell Hud Prowise (teclyn rheoli o bell 2.4G):

- Sianel isel: 2406MHz
- Sianel ganol: 2424MHz
- Sianel uchel: 2406MHz

## 2. Gofynion diogelwch

### 2.1. Gofynion diogelwch pwysig

Bydd dilyn y cyfarwyddiadau diogelwch hyn yn helpu i warantu gweithrediad dibynadwy a hir oes i'ch sgrin gyffwrdd Prowise.
Os oes diffygion, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid Prowise neu bartner ardystiedig er mwyn osgoi difrod.

**GOFAL!**
**Dilynwch y gofynion diogelwch isod:**

- Nid yw Prowise B.V. yn atebol am anaf, ddifrod a/neu ôl traul gormodol o ganlyniad i ddefnyddio neu gynnal a chadw'r ddyfais yn amhriodol, neu addasiadau i'r ddyfais.
- Defnyddiwch gydrannau ac ategolion a ddarperir gan Prowise yn unig.
- Ni chaniateir atgyweiriadau nac addasiadau gan unrhyw drydydd parti.
- Peidiwch â defnyddio'r ddyfais hon mewn amgylchedd sy'n cynnwys peryglon a allai achosi ffrwydrad. Mae hyn yn cynnwys safleoedd Ex nwy neu lwch.
- Peidiwch â defnyddio'r ddyfais hon mewn amgylcheddau llaith neu lychlyd.
- Sicrhewch fod digon o le o gwmpas y sgrin fel nad yw'r agoriadau awyru'n cael eu rhwystro, ac nad yw'n gallu gorboethi.
- Gosodwch y sgrin gyffwrdd ar wal neu lawr sefydlog.
- Peidiwch â gosod y sgrin gyffwrdd yn agos at gyfarpar sy'n cynhyrchu gwres.
- Yr uchafswm amser gweithredu dyddiol yw 16 awr (amser gweithredu 16/7).

**RHYBUDD!**
**Rhybudd o rannau wedi'u trydanu.**

- Cyfanswm Pŵer Allbwn Math-C, OPS a Siaradwr: 150W (Uchafswm)
- Peidiwch byth ag agor amgaead y sgrin gyffwrdd! Gallwch gael sioc neu achosi siortio neu hyd yn oed dân, a allai arwain at anaf corfforol difrifol neu ddifrod i'r sgrin gyffwrdd.
- Peidiwch â gosod gwrthrychau yn agoriadau'r sgrin gyffwrdd nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer hyn. Gallai hyn arwain at siortio neu dân hyd yn oed.
- Peidiwch â defnyddio'r sgrin gyffwrdd yn ystod storm mellt a tharanau er mwyn osgoi difrod yn sgil mellten.
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r sgrin gyffwrdd yn mynd yn wlyb! Gall hyn arwain at siortio a pherygl o drydaniad. Peidiwch â gosod y sgrîn yn agos at ddŵr a pheidiwch â gosod gwrthrychau sy'n cynnwys hylifau ar y ddyfais neu wrth ei hymyl.
- Rhaid i'r plygiau beidio â dod i gysylltiad â dŵr o gwbl. Pe bai hyn yn digwydd, diffoddwch y prif switsh pŵer yn y cabinet trydanol, a datgysylltwch y cordyn pŵer. Rhaid i'r plygiau fod yn hollol sych cyn y gellir defnyddio'r ddyfais eto.
- Peidiwch byth â chyffwrdd y plygiau â dwylo gwlyb.
- Gwnewch yn siŵr nad ydych byth yn gorlwytho'r allfa drydanol, er enghraifft, drwy ddefnyddio addasydd aml-allbwn. Gall gorlwytho achosi siortio.
- Plygiwch y cebl pŵer i allfeydd trydanol wedi'u daearu ag AC 100-240V ~50/60Hz yn unig.
- Diffoddwch y sgrin gyffwrdd ar unwaith neu peidiwch â'i throi ymlaen, dadblygiwch y cebl pŵer a chysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Prowise os yw:
    - Y plwg neu'r cebl pŵer wedi'i ddifrodi. Newidiwch geblau cysylltiad diffygiol â darnau gwreiddiol yn unig. Peidiwch byth ag atgyweirio ceblau a phlygiau sydd wedi'u difrodi eich hun; newidiwch nhw.
    - Yr amgaead neu'r sgrin wedi'u difrodi neu os oes hylifau wedi treiddio i mewn i'r ddyfais.
    - Y ddyfais yn gwneud synau anarferol neu ag arogl anarferol. Gall hyn fod o achos siortio mewnol.



**RHYBUDD PERYGL!**
**Rhybudd: Anaf (difrifol) posibl**

- Sicrhewch fod y sgrin wedi'i gosod ar yr uchder iawn neu fod y lifft wedi'i osod ar yr uchder iawn pan fo'r sgrin yn cael ei defnyddio.
- Peidiwch byth â gadael i blant hongian ar y sgrin ac, os yw'n berthnasol, peidiwch â phwyso ar fyrddau gwyn sydd wedi'u gosod ar y sgrin na hongian oddi arnynt.
- Sicrhewch nad yw'r cebl cysylltu yn gorwedd ar draws y llwybr cerdded, er mwyn osgoi'r risg o faglu drosto.
- Os yw'r panel gwydr yn torri am unrhyw reswm, mae risg o frifo eich hun ar wydr miniog. Gofynnwch i dechnegydd proffesiynol, wedi'i hyfforddi gan Prowise, yn unig i atgyweirio'r sgrin.
- Cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmer Prowise neu bartner ardystiedig Prowise os oes unrhyw ddiffyg i'r sgrin.

**GOFAL!**

- Peidiwch â sefyll ar gadair, stôl nac unrhyw beth arall i weithredu'r sgrin gyffwrdd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant!
- Mae hyn yn peri risg o ddisgyn, a all arwain at anaf difrifol.
- Peidiwch byth â thynnu modiwl (er enghraifft modiwl cyfrifiadur) pan mae'r sgrin gyffwrdd ymlaen.
- Dros amser, gall llwch hel y tu mewn i'r sgrin gyffwrdd a all achosi gorboethi. Er mwyn osgoi hyn, sicrhewch fod y sgrin gyffwrdd yn cael ei glanhau gan Prowise neu bartner ardystiedig yn rheolaidd.
- Sicrhewch nad yw'r sgrin yn agored i siociau sylweddol, dirgryniadau nac ardrawiadau. Gall hyn ddifrodi'r ddyfais a'r sgrin.
- Er mwyn osgoi difrod, peidiwch â chyffwrdd yn y sgrin â gwrthrychau miniog neu galed.
- Peidiwch â symud y sgrin oni bai ei bod wedi'i mowntio ar lifft symudol neu lifft gogwyddadwy. Peidiwch byth â cheisio dadosod na symud y sgrin ar eich pen eich hun. Mae'r sgrin yn drwm a dim ond personél proffesiynol Prowise neu bartner achrededig gaiff ei symud.

## 2.2. Cwmpas darpariaeth

Gwiriwch fod popeth wedi ei ddanfon ac os oes rhywbeth ar goll, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Prowise o fewn pum (5) niwrnod o'i dderbyn. Nodwch y rhif cyfresol a sicrhewch fod gennych gopi o'r anfoneb sydd yn yr hysbysiad hwn.

Rydych wedi derbyn yr eitemau canlynol yn y bocs a ddanfonwyd:

- Sgrin Gyffwrdd Prowise Deg
- Blwch atodion:
  - Teclyn rheoli o bell
  - Batri AAA 1.5V (2x)
  - Antena Wi-Fi (2x)
  - Beiro goddefol (4x)
  - Pennau beiro (4 set)
  - Canllaw Cychwyn Cyflym
  - Gofynion Diogelwch
  - Boltiau VESA (4x)
  - Sgriw camera UNC 1/4-modfedd
  - Braced camera + sgriw (1x)

**RHYBUDD PERYGL!**
Cadwch y deunydd pecynnu, megis gorchudd plastig, o afael plant. Gall defnydd anghywir o'r deunydd pecynnu arwain at berygl mygu.

- Arhoswch 24 awr ar ôl i'r ddyfais gael ei danfon cyn ei defnyddio, i ganiatáu i'r ddyfais addasu i dymheredd yr amgylchedd. Gall newidiadau mewn tymheredd neu leithder uchel achosi anwedd yn y sgrin gyffwrdd a allai arwain at siortio neu anwedd y tu ôl i'r panel gwydr.
- Staff medrus Prowise neu bartner ardystiedig yn unig ddylai osod y sgrin gyffwrdd.

## 2.3. Ceblau

- Er mwyn osgoi difrod i'r ceblau, peidiwch â gosod unrhyw eitemau arnynt. Gwnewch yn siŵr nad yw'r ceblau wedi'u plygu nac wedi'u dal.
- Cysylltwch ddyfeisiau perifferol fel bysellfwrdd, llygoden neu gyfrifiaduron allanol tra bo'r sgrin gyffwrdd wedi'i diffodd yn unig. Mae hyn yn atal difrod i'r offer.
- Cadwch o leiaf un metr o bellter oddi wrth ffynonellau ag ymyrraeth amledd uchel a/neu fagnetig (teledu, seinyddion, ffôn symudol, ffonau DECT, etc.) er mwyn osgoi diffygion neu golli data.
- I gysylltu'r sgrin gyffwrdd â rhyngwynebau allanol, defnyddiwch gebl gorchuddiedig o ddim mwy na 5 metr o hyd yn unig. Gall ceblau hirach leihau cryfder y signal.
- Sichrewch eich bod ond yn cysylltu dyfeisiau perifferol sy'n cydymffurfio â rheoliad EN-IEC 60950 'Offer Technoleg Gwybodaeth - Diogelwch' neu'r rheoliad EN-IEC 60065 'Offer sain, offer fideo ac offer electronig tebyg - Gofynion diogelwch' neu'r rheoliad EN-IEC 62368-1 'Offer sain/fideo, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu - Rhan 1: Gofynion diogelwch'.
- Os defnyddir y pyrth I/O ar flaen y sgrin gyffwrdd, byddwch yn ofalus i beidio â tharo i mewn i'r ceblau cysylltiedig/ffyn USB. Gall hyn achosi difrod i'r ceblau neu byrth cysylltu'r sgrin.

## 2.4. Y sgrin gyffwrdd

Dilynwch y canllawiau isod i ymestyn hyd oes y sgrin gyffwrdd:

- Gweithredwch y sgrin gyffwrdd gyda'ch bys(edd) neu gyda'r Pinnau Ysgrifennu Prowise a ddarperir, sydd wedi cael eu datblygu'n benodol i'r diben hwn. Peidiwch â gweithredu'r sgrin gyda beiro neu wrthrych miniog. Gall hyn ddifrodi'r sgrin gyffwrdd.
- Mae llwch a saim ar y sgrin gyffwrdd yn lleihau ei sensitifrwydd. Tynnwch lwch neu saim oddi ar y sgrin gyda chadach meddal, sych, sy'n rhydd rhag lint. Os ydych yn dymuno defnyddio sylwedd glanhau, rhowch ar gadach yn gyntaf. Peidiwch byth â defnyddio sylweddau glanhau'n uniongyrchol ar y sgrin a defnyddiwch sylweddau glanhau a argymhellir gan Prowise yn unig. Glanhewch y sgrin gyda lliain glân, sy'n rhydd rhag llwch a sylwedd glanhau cymedrol (gwerth PH o 7 i 9) yn unig.
- Peidiwch â gosod gwrthrychau ar y sgrin neu ar ei hymyl a pheidiwch â hongian unrhyw beth oddi ar y sgrin. Gall hyn effeithio'n negyddol ar weithrediad y sgrin gyffwrdd.
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r sgrin yn agored i siociau sylweddol, dirgryniadau nac ardrawiadau. Gall hyn ddifrodi'r ddyfais a'r sgrin.

## 2.5. Ergonomeg

**RHYBUDD!**
Mae lefel sain rhy uchel yn achosi niwed parhaol i'r clyw. Gall difrod i'r clyw ddigwydd hefyd os yw'r gwrandäwr yn agored i sain uchel y ddyfais am gyfnod estynedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio clustffonau!

Addaswch y sgrin i'r uchder iawn cyn ei defnyddio bob tro. Dylech osgoi ystum llipa a gwnewch yn siŵr bod pob cornel o'r sgrin o fewn cyrraedd.

Yn safle gorau'r sgrin, gallwch gyrraedd top a gwaelod y sgrin heb orfod plygu i lawr na chyrraedd yn uchel. Gellir osgoi cwynion corfforol, sy'n deillio o ystum amhriodol, drwy addasu'r sgrin i'r uchder cywir

Rhowch y sain ar ei isaf cyn chwarae synau, cerddoriaeth neu fideos. Dechreuwch y ffeil gyfryngau a chynyddwch y sain yn raddol i lefel ddymunol. Mae hyn yn atal niwed i'r clyw, gan gynnwys os ydych yn defnyddio clustffonau!

**Cyfarwyddiadau Golau Glas Isel**
Mae tonfedd golau glas rhwng 300 nm a 500 nm. Mae gan y cynnyrch hwn nodwedd i leihau allyriadau golau glas (rhagosodiad y ffatri yw modd golau glas isel)

Awgrymiadau i amddiffyn eich llygaid: Argymhellir ichi osod y cynnyrch hwn ar bellter o 2.2 medr i 4.2 medr oddi wrth eich llygaid, ac ar ôl 2 awr o wylio'n barhaus, eich bod yn cymryd egwyl 20 munud ac yn edrych i'r pellter er mwyn osgoi blinder llygaid. Ar yr un pryd, ceisiwch ddatblygu arfer da o ymgymryd ag ymarferion llygaid er mwyn amddiffyn eich golwg ac atal myopia.


03 EN
08 DE
13 NL
18 FR
23 IT
28 ES
33 PT
38 NO
43 DA
48 SV
53 FI
58 CY
63 PL
68 CS
73 SK
78 RO
83 HU
88 LT
93 LV
98 ET

Sut i roi'r modd golau glas isel ymlaen: Dewislen gosodiadau - Arddangos - Modd nos

### 2.11. Y teclyn rheoli o bell

**RHYBUDD PERYGL!**
Tynnwch fatris sy'n gollwng o'r teclyn rheoli o bell cyn gynted â phosibl. Mae cemegau sy'n gollwng yn wenwynig ac ni ddylent fyth ddod i gysylltiad â'r geg, y croen na'r llygaid.

Dilynwch y canllawiau isod i ymestyn hyd oes y teclyn rheoli o bell:

- Peidiwch â gollwng y teclyn rheoli o bell a pheidiwch â'i daflu.
- Ni ddylai'r teclyn rheoli o bell fyth ddod i gysylltiad â dŵr. Sicrhewch nad ydych yn defnyddio nac yn gosod y teclyn rheoli o bell mewn amgylchedd sy'n agored i ddŵr. Os bydd y teclyn rheoli o bell yn mynd yn wlyb, sychwch ef ar unwaith gyda chadach meddal, sych, di-lint.
- Defnyddiwch gadach meddal, sych, sy'n rhydd rhag lint yn unig i lanhau'r teclyn rheoli o bell. Ni ddylai'r cadach hwn fod yn wlyb.
- Peidiwch ag agor amgaead y teclyn rheoli o bell. Ar wahân i'r gorchudd ar gyfer y batri, ni ddylid agor unrhyw rannau o'r amgaead.
- Mae'r teclyn rheoli o bell yn defnyddio batris AAA 1.5V yn unig.
- Gosodwch begynau positif a negyddol y batris fel y dangosir ar y teclyn rheoli o bell.

## 3. Yr Amgylchedd

- Datgysylltwch y cebl pŵer os na fydd y sgrin yn cael ei defnyddio am gyfnod estynedig.
- Mae'r defnydd o ynni pan nad yw'n cael ei defnyddio yn cyfateb i < 0.5 watt.
- Mae'r sgrin gyffwrdd yn ardystiedig yn ôl Energy Star, sy'n sicrhau defnydd is o ynni ac yn diogelu allyriadau CO2 is.
- Pan nad oes modd defnyddio'r sgrin gyffwrdd mwyach, gellir cael gwared â hi drwy fynd â hi i fan casglu dynodedig

### 3.1. Amodau amgylchol

- Gellir ddefnyddio'r sgrin gyffwrdd mewn tymheredd amgylchol o 0°C i +40°C a lleithder perthynol o 10% i 90% (dim anwedd).
- Pan fo'r sgrin gyffwrdd wedi ei diffodd, gellir ei chadw mewn tymheredd amgylchol o -20°C i 60°C a lleithder perthynol sydd rhwng 10% a 90% (dim anwedd).
- Peidiwch â defnyddio'r sgrin gyffwrdd ar uchder y tu hwnt i 5000 metr.
- Datgysylltwch y sgrin gyffwrdd o'r prif gyflenwad yn ystod storm mellt a tharanau.

### 3.2. Ailgylchu a chael gwared

Mae'n rhaid cael gwared â gwastraff trydanol ac electronig yn gywir er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chyfrannu at yr economi gylchol. Peidiwch â chael gwared â'r ddyfais hon gyda gwastraff trefol. Os oes gennych chi gwestiynau ynghylch y modd cywir o gael gwared â'r ddyfais, cysylltwch â Prowise neu bartner ardystiedig.

**PECYNNU**
Mae'r ddyfais wedi ei phecynnu i atal difrod a achosir yn ystod cludiant. Mae pecynnu'n cynnwys adnoddau y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

**DYFAIS**
Peidiwch â chael gwared ar y ddyfais gyda gwastraff cartref ar ddiwedd ei hoes. Holwch am y posibilrwydd o fodd ecogyfeillgar a chyfrifol o gael gwared arni.

**BATRIS**
Nid yw batris diffygiol yn perthyn i wastraff cartref. Ewch â'r rhain i fan casglu ar gyfer batris gwag fel y gellir eu hailgylchu. Mae'r teclyn rheoli o bell yn defnyddio batris AAA 1.5V.

## 1. Informacje na temat wymagań bezpieczeństwa

Przed użyciem ekranu dotykowego należy uważnie przeczytać wymagania dotyczące bezpieczeństwa. Należy przestrzegać ostrzeżeń opisanych na urządzeniu i zawartych w instrukcji obsługi. Niniejsze wymagania dotyczące bezpieczeństwa oraz instrukcję obsługi należy zawsze przechowywać w zasięgu ręki.

### 1.1. Piktogramy i symbole ostrzegawcze użyte w tych wymaganiach dotyczących bezpieczeństwa

**OSTRZEŻENIE O NIEBEZPIECZEŃSTWIE!**
Ostrzeżenie dotyczące potencjalnych (poważnych) obrażeń.

**OSTRZEŻENIE!**
Varovanie týkajúce sa dielov pod napätím.

**OSTRZEŻENIE!**
Ostrzeżenie dotyczące ryzyka uszkodzenia słuchu ze względu na wysoki poziom głośności.

**PRZESTROGA!**
Należy przestrzegać niniejszych instrukcji, aby uniknąć szkód materialnych.

**UWAGA!**
Informacje oraz wskazówki dotyczące używania tego urządzenia.

### 1.2. Przeznaczenie

To urządzenie przeznaczone jest do komunikacji cyfrowej oraz używania i edytowania dokumentów elektronicznych i treści multimedialnych oraz zarządzania nimi. Jeśli urządzenie jest używane do celów innych niż określone w niniejszych wymaganiach dotyczących bezpieczeństwa i instrukcji obsługi, Prowise B.V. nie ponosi żadnej odpowiedzialności za potencjalne szkody materialne lub obrażenia fizyczne. Nie należy dokonywać żadnych zmian w urządzeniu bez pisemnej zgody firmy Prowise. Nieprawidłowe użycie spowoduje utratę gwarancji.

### 1.3. Deklaracja zgodności

Prowise B.V.
Luchthavenweg 1b
6021 PX Budel
Holandia

Niniejszym deklaruje na własną wyłączną odpowiedzialność, że produkt:
Prowise Touchscreen Ten G3 o numerach produktu
PW.1.17065.0003 / PW.1.17075.0003 / PW.1.17086.0003 / PW.1.17098.0003

do którego ma zastosowanie niniejsza deklaracja, spełnia podstawowe wymogi dotyczące zdrowia i bezpieczeństwa następujących dyrektyw europejskich:

- dyrektywa niskonapięciowa 2014/35/UE
- dyrektywa kompatybilności elektromagnetycznej 2014/30/UE
- dyrektywa RoHS 2011/65/UE
- dyrektywa dotycząca ekoprojektu dla produktów związanych z energią 2009/125/WE
- WEEE

oraz, gdzie ma to zastosowanie, jest zgodny z następującymi zharmonizowanymi normami lub częściami tych norm:

**Certyfikaty europejskie:**

| | |
|---|---|
| CE: EMC - LVD - RED | CE |
| RoHS | RoHS |
| REACH | REACH |
| WEEE | |
| GS | TÜV Rheinland ZERTIFIZIERT, GS |

**Certyfikaty międzynarodowe:**

| | |
|---|---|
| FCC - Rhan 15, Is-ran B (UDA) | FC |
| CAN ICES-003(B)/NMB-003(B) | IC |

03 EN
08 DE
13 NL
18 FR
23 IT
28 ES
33 PT
38 NO
43 DA
48 SV
53 FI
58 CY
63 PL
68 CS
73 SK
78 RO
83 HU
88 LT
93 LV
98 ET